# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Rhondda Cynon Taf

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Rhondda Cynon Taf fodloni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Rhondda Cynon Taf 6 ohonynt yn llawn, 2 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 2 ohonynt.

Mae Rhondda Cynon Taf wedi atgyfnerthu ei sefyllfa mewn nifer o feysydd yn 2018/19, wrth i'r symud i System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru gyfan ymwreiddio, ac yn sgil buddsoddiadau cadarnhaol mewn seilwaith, a ddylai gyflawni gwelliannau yn 2019/20. Mae'r cofnod o'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd yn parhau i fod yn gymysg tan hynny, gyda chynllunio gofalus yn llwyddo i wella neu gynnal perfformiad mewn rhai meysydd, ond gyda'r ffigurau'n gostwng mewn meysydd eraill. Er bod y gwariant ar ddeunyddiau wedi lleihau yn 2018/19, mae targedu'r buddsoddiad wedi'i gwneud yn bosibl i gyflawni Dangosydd Ansawdd 10 (adnoddau Cymraeg), a dylai'r cyfyngiadau ar wario lacio yn 2019/20. Mae lefelau staffio wedi gostwng, ond mae'r gwasanaeth yn cefnogi dau aelod o'r staff i gwblhau cymwysterau llyfrgell. Mae'r awdurdod hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ei bwyntiau gwasanaeth, gan gynnwys datblygiad arloesol newydd ym Mhontypridd, ac adleoli dwy lyfrgell mewn Hybiau Cymunedol newydd. Gellir rhagweld gwelliannau pellach wrth i fanteision y buddsoddiadau gael eu gwireddu, er bod lefelau adnoddau cyffredinol isel y gwasanaeth yn parhau i fod yn ffactor cyfyngol.

- Mae pob man gwasanaeth yn darparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles, gyda hyrwyddwyr a gwasanaethau sy'n Deall Dementia ar waith ym mhob cangen bellach. Dywedodd 97% o oedolion fod y gwasanaethau yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi cael eu cynnal, gyda 97% yn cael cymorth i gyflawni eu nodau dysgu.
- Mae ffigurau defnydd wedi cynyddu mewn rhai meysydd, am fod problemau adrodd wedi cael eu datrys, ond maent yn parhau i waethygu mewn meysydd eraill, gan gynnwys cyfanswm yr ymweliadau, y niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a benthyciadau i blant. Efallai fod cau mannau gwasanaeth i'w hadnewyddu yn parhau i ddylanwadu ar berfformiad o ran hyn.
- Mae gwariant ar y gyllideb ar gyfer deunyddiau wedi gostwng, ac nid yw'r targedau o ran hyn yn cael eu cyflawni; fodd bynnag, mae gwell buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg wedi arwain at gyflawni DA 10. Nodir bod y gwasanaeth yn disgwyl i'r cyfyngiadau ar wariant lacio yn 2019/20.
- Roedd gwell perfformiad o ran cyflenwi ceisiadau yn golygu yr ystyrir bod y targed o 7 diwrnod wedi'i gyflawni, ond mae angen gwneud gwaith o hyd i gyflawni'r targed o 15 diwrnod.

- Mae lefelau staffio wedi gostwng ers 2017/18, gyda nifer bach o swyddi'n cael eu colli, ond mae staffio proffesiynol wedi parhau ar yr un lefel ac mae'r gwasanaeth yn cefnogi dau aelod o'r staff i ennill cymwysterau; nid yw'r targedau yn y naill achos na'r llall wedi cael eu cyflawni.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. Mae'r awdurdod wedi parhau i ddarparu gwasanaeth i ysgolion, gwasanaeth llyfrgell deithiol a gwasanaeth i'r rhai sy'n gaeth i'r cartref, ac mae'n buddsoddi er mwyn uwchraddio cyfleusterau, gyda llyfrgell bwrpasol newydd ym Mhontypridd, a dau fan gwasanaeth arall yn cael eu hadleoli fel rhan o hybiau lleol. Drwy ailfodelu'r gwasanaeth llyfrgell deithiol bu modd hefyd gynnig arosfannau hwy, sy'n rhoi amrywiaeth ehangach o wasanaethau i ddefnyddwyr. Mae Strategaeth Llyfrgelloedd a Chynllun Gweithredu wedi'u diweddaru ar gyfer 2019/2021 ar gael ar wefan y gwasanaeth, sy'n nodi'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y gwasanaeth.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni 6 yn llawn, 2 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau y pen o'r boblogaeth | x | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth | x | |

| | | |
|---|---|---|
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg | ✔ | |
| neu Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth | x | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n rhannol |
| a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod | x | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff y pen o'r boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth | x | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth | x | Heb ei gyflawni |

Mae gwasanaeth Rhondda Cynon Taf wedi gwella ei berfformiad ers 2017/18, ac mae'n cyflawni'r gofynion ar gyfer adnoddau Cymraeg (DA 10) yn llawn, ac yn cyflawni'r targed o 7 diwrnod ar gyfer DA 12.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cwblhaodd Rhondda Cynon Taf ei arolygon o ddefnyddwyr i oedolion a phlant yn ystod hydref 2018.

| **Dangosydd perfformiad** | | ***Safle*** | **Isaf** | **Canolrif** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 96% | *=3/13* | 60% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 90% | *=6/15* | 38% | 88% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 97% | *=10/20* | 80% | 97% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Rhondda Cynon Taf ddwy astudiaeth achos o'r fath, ond gellid bod wedi cynnwys tystiolaeth gryfach o'r effaith ar unigolion / grwpiau:

- Ymwybyddiaeth Awtistiaeth – darparu hyfforddiant i'r staff i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth, a gwneud y profiad o ddefnyddio llyfrgelloedd yn haws i bobl ar y sbectrwm awtistig; bydd y gwasanaeth hefyd yn treialu arwyddion 'sy'n ystyriol o Awtistiaeth' mewn un gangen.
- Sesiynau Deall Dementia - gwaith yn ystod Wythnos Gweithredu Dementia i gyflwyno sesiynau Cyfeillion Dementia i'r cyhoedd (gan adeiladu ar hyfforddiant sydd eisoes wedi'i roi i'r staff). Cynhaliwyd tair sesiwn a chafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai a fu'n bresennol.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2017/18* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 75% | *9/15* | 24% | 82% | 96% | *84%* |
| c) iechyd a lles | 58% | *=9/15* | 33% | 62% | 94% | *59%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 97% | *=7/15* | 90% | 97% | 100% | *99%* |
| DA 2 – Boddhad cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 92% | *5/14* | 81% | 91% | 98% | *94%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 99% | *=3/14* | 93% | 99% | 100% | *99%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 88% | *8/13* | 65% | 91% | 95% | |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol | 97% | *=7/14* | 93% | 97% | 99% | *96%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.5 | *=1/13* | 8.5 | 9.3 | 9.5 | *x* |
| DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth | 40 | *8/22* | 13 | 30 | 208 | *41* |
| c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth | 95 | *17/22* | 15 | 199 | 433 | *93* |
| DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth | 175 | *19/22* | 91 | 295 | 689 | *186* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 3,044 | *19/22* | 2,596 | 3,969 | 7,170* | *3,355* |
| b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 481 | *17/22* | 345 | 885 | 2,205 | *243* |
| c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth | 58 | *22/22* | 58 | 150 | 251 | *204* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth[2] | 458 | *15/22* | 95 | 602 | 1,424 | *420* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth[3] | 8 | *18/22* | 5 | 10 | 14 | *8* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 22% | *=14/22* | 14% | 25% | 63% | *24%* |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 29 | *12/21* | 3 | 30 | 214 | *22* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 1,334 | *13/21* | 90 | 1,477 | 9,806 | *2,442* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth | £9,434 | *18/22* | £7,181 | £12,145 | £19,449 | *£9,994* |
| b) % ar staff | 76% | *3/22* | 47% | 62% | 78% | *68%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 14% | *6/22* | 8% | 13% | 21% | *15%* |
| % ar offer ac adeiladau | 2% | *19/22* | 0.4% | 4% | 25% | *4%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 8% | *19/22* | 0.3% | 16% | 37% | *14%* |
| c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth | £300 | *14/22* | £0 | £467 | £8,829 | *£203* |
| DA 15 – Cost net am bob ymweliad | £2.33 | *4/22* | £1.18 | £1.82 | £2.52 | *£2.20* |
| DA 16 – Oriau agor[4] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.00% | *=1/22* | 0.00% | 0.00% | 0.25% | *0.04%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 7.01% | *19/20* | 0.00% | 0.28% | 7.99% | *3.90%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân*
*[2] fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo*
*[3] fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl [4] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Rhondda Cynon Taf ei arolygon o ddefnyddwyr i oedolion a phlant yn ystod hydref 2018, gyda lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid o hyd, ond gwelwyd gostyngiadau bach yn y safbwyntiau a gofnodwyd ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cefnogi datblygu sgiliau ac iechyd a lles. Dywedodd 97% o oedolion fod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol o hyd, a rhoddodd defnyddwyr iau sgôr o 9.5 allan o 10, sy'n adlewyrchu'n dda ar waith tîm gwasanaethau ieuenctid y llyfrgell. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles, gyda'r targedau o ran hyn yn cael eu cyflawni. Hefyd, mae gan bob man gwasanaeth hyrwyddwyr a gwasanaethau Deall Dementia ar waith bellach. Mae'r niferoedd sy'n cael hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi parhau ar yr un lefel fwy neu lai, gyda lefelau hyfforddiant ffurfiol uwchlaw'r lefel ganolrifol, a 97% yn cael cymorth i gyflawni eu nodau dysgu. Fodd bynnag, erys lefelau hyfforddiant anffurfiol ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, gyda 13 o fannau gwasanaeth sefydlog ar agor am 10+ awr yr wythnos, ac

mae'n darparu digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'r canghennau hyn. Fodd bynnag, erys ffigurau ar gyfer defnydd ar y pegwn isaf o ran perfformiad cymharol, gyda niferoedd ymwelwyr a mynychwyr digwyddiadau yn parhau i leihau, ond mae cau cyfleusterau llyfrgell ar gyfer gwaith adnewyddu yn ffactor amlwg o ran hyn. Mae nifer y benthycwyr gweithredol / aelodau llyfrgell hefyd wedi lleihau'n sylweddol, ond nodir bod y rhain yn ffigurau mwy cywir am fod gwallau yn y data a nodwyd yn ystod y cyfnod pontio i'r system rheoli llyfrgelloedd i Gymru gyfan y llynedd. Mae problemau o ran cofnodi rhith-ymweliadau a nifer y llyfrau a fenthycir hefyd wedi cael eu datrys, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn perfformiad o ran defnyddio'r wefan a nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir, ond mae nifer y llyfrau i blant a fenthycir wedi lleihau ers 2017/18.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[i]

Mae gwariant ar y gyllideb ar gyfer deunyddiau wedi gostwng, heb y cyfandaliad a roddwyd yn 2017/18 i fuddsoddi mewn stoc ar gyfer llyfrgell newydd; erys y perfformiad o ran hyn islaw'r lefel a bennwyd ar gyfer DA 9. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi targedu ac wedi gwella ei fuddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg, gan gyflwyno polisi caffael mwy trwyadl, ac mae bellach yn cyflawni'r targed ar gyfer gwariant cymesur yn y maes hwn, gan sicrhau ei fod yn cyflawni DA 10. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi gostwng ychydig, ar ôl i'r gwasanaeth gael gwared ar hen gyfarpar; mae lefelau defnydd yn parhau i ostwng (yn debyg i'r profiad ledled Cymru), ac mae'r gwasanaeth yn nodi nad yw'n bwriadu darparu cyfrifiaduron personol ychwanegol yn sgil y defnydd cynyddol o Wi-Fi. Mae'r perfformiad o ran cyflenwi ceisiadau wedi gwella, ac ystyrir bod y targed o 7 diwrnod wedi'i gyflawni, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i adolygu a datblygu ei ddull gweithredu.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio wedi gostwng ar y cyfan, gyda swyddi i raddedigion a phrentisiaid yn cael eu colli, a newidiadau i staffio'r llyfrgell deithiol; nodir nad yw'r gwasanaeth yn rhagweld unrhyw welliant sylweddol i'r lefelau hyn yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae nifer y staff cymwysedig wedi parhau ar yr un lefel, ac mae'r gwasanaeth yn cefnogi dau aelod o staff i gwblhau astudiaethau dysgu o bell, er mwyn ychwanegu at y lefelau staffio proffesiynol. Felly gall perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn wella yn y dyfodol, ond am y tro nid yw'r naill darged staffio na'r llall yn cael eu cyflawni. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i wneud defnydd effeithiol o wirfoddolwyr, ond mae oriau gwirfoddolwyr wedi lleihau yn 2018/19 yn unol â natur gyfnewidiol y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ers 2017/18, ac erys ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Bu gostyngiadau ym mhob maes ac eithrio staffio, ond nodir bod hyn yn adlewyrchu gwariant arfaethedig yn hytrach na thoriadau neu arbedion effeithlonrwydd penodol. Mae disgwyl hefyd y bydd y gyllideb ar gyfer deunyddiau yn cynyddu yn 2019/20 i lefelau blaenorol. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol yn debyg i rai 2017/18 ac yn dal ychydig yn is na lefel y targed. Mae model gwasanaethau clwstwr yn parhau i weithredu er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr ddefnyddio llyfrgell leol ar 6 diwrnod o'r wythnos. Mae nifer yr arosfannau a gollwyd gan y llyfrgell deithiol wedi cynyddu eto yn 2018/19, sy'n adlewyrchu problemau mecanyddol o hyd gyda'r fflyd; daeth dwy fan newydd yn weithredol ddechrau 2019 a dylai'r sefyllfa hon fod wedi'i datrys erbyn hyn.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i nodi ei gyfraniad at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru: *Ffyniannus a Diogel*, cefnogi datblygiad sgiliau, mynediad at gyfleusterau TG, a gwirfoddoli; *Iach ac Egniol,* darparu cynlluniau bibliotherapi a chefnogi llesiant cymdeithasol; *Uchelgeisiol ac yn Dysgu*, hyrwyddo sgiliau darllen i bob oedran; ac *Unedig a Chysylltiedig*, galluogi datblygiad sgiliau digidol. Mae llawer o'r sylwadau hyn yn ymwneud â gwasanaethau a mentrau sefydledig, a byddai ychydig o fyfyrio ychwanegol ar ddatblygiadau yn 2018/19 wedi bod yn briodol.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Rhondda Cynon Taf yn nodi effaith pwysau ariannol parhaus, sy'n golygu bod yn rhaid i'r gwasanaeth llyfrgell adolygu perthnasedd a hygyrchedd ei wasanaethau, ac arloesi er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas at y diben. Tynnir sylw at ymwneud y gwasanaeth llyfrgell â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu Hybiau Cymunedol fel rhywbeth sy'n allweddol i wella cyfleusterau ac ymgorffori'r gwasanaeth mewn rhwydweithiau cymdogaeth mwy o faint, gan gynyddu proffil y gwasanaeth a chynnig cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth. Nodir adleoli Llyfrgell Pontypridd, y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu mynediad digidol, a chyflwyno ciosgau hunanwasanaeth hefyd wedi'u nodi fel blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## 6 Casgliad

Mae Rhondda Cynon Taf wedi atgyfnerthu ei sefyllfa mewn nifer o feysydd yn 2018/19, wrth i'r symud i System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru gyfan ymwreiddio, ac yn sgil buddsoddiadau cadarnhaol mewn seilwaith, a ddylai gyflawni gwelliannau yn 2019/20. Mae'r cofnod o'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd yn parhau i fod yn gymysg tan hynny, gyda chynllunio gofalus yn llwyddo i wella neu gynnal perfformiad mewn rhai meysydd, ond gyda'r ffigurau'n gostwng mewn meysydd eraill. Er bod y gwariant ar ddeunyddiau wedi lleihau yn 2018/19, mae targedu'r buddsoddiad wedi'i gwneud yn bosibl i gyflawni Dangosydd Ansawdd 10 (adnoddau Cymraeg), a dylai'r cyfyngiadau ar wario lacio yn 2019/20. Mae lefelau staffio wedi gostwng, ond mae'r gwasanaeth yn cefnogi dau aelod o'r staff i gwblhau cymwysterau llyfrgell. Mae'r awdurdod hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ei bwyntiau gwasanaeth, gan gynnwys datblygiad arloesol newydd ym Mhontypridd, ac adleoli dwy lyfrgell mewn Hybiau Cymunedol newydd. Gellir rhagweld gwelliannau pellach wrth i fanteision y buddsoddiadau gael eu gwireddu, er bod lefelau adnoddau cyffredinol isel y gwasanaeth yn parhau i fod yn ffactor cyfyngol.

---

[i] Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.